



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: flwyddyn yn ddiweddarach



Adroddiad cryno

Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: flwyddyn yn ddiweddarach

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a'r cyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg uwch; cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol; penaethiaid gwasanaethau plant a gweithwyr cymdeithasol. Dylai hyn gael ei ddarllen gan staff o fewn y sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb dros blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ogystal â materion sy'n ymwneud â maethu a mabwysiadu, a mudiadau'r trydydd sector y mae eu gwaith yn helpu i gefnogi plant.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi rhaglen Llywodraeth Cymru a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni camau gweithredu o fewn ei chwe thema allweddol i sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'n crynhoi'r hyn a gyflawnwyd o dan y rhaglen o Chwefror 2016 i Ionawr 2017 a'r hyn sydd ar y gweill ar gyfer 2017 i 2018.

Camau i'w cymryd

I'w ddefnyddio wrth ddatblygu a darparu i wella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Cefnogi Cyflawniad a Diogelu

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3344

e-bost: LACstrategy@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasiliau

Dogfennau cysylltiedig

Gweler yr Atodiad.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Pam mae'r adroddiad hwn yn bwysig?	3
Y daith hyd yn hyn	5
Thema 1: Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau	7
Thema 2: Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio	10
Thema 3: Dysgu ac addysgu effeithiol	12
Thema 4: Gwella'r defnydd o ddata	15
Thema 5: Cryfhau trefniadau ariannu	16
Thema 6: Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu	17
Presenoldeb yn yr ysgol a gwaharddiadau	18
Astudiaethau achos	20
Cysylltiadau defnyddiol	21
Atodiad: Dogfennau perthnasol	22

Cyflwyniad

Nid yw plant sy'n derbyn gofal yn llwyddo mor dda yn yr ysgol â llawer o'u cyfoedion. Mae hyn yn annerbyniol. Rydym am i bob plentyn wneud yn dda a chyflawni ei botensial, waeth beth fo'i gefndir.

Nod cynllun addysg Llywodraeth Cymru, *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*¹, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, yn canolbwyntio mwy ar anghenion dysgwyr sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn darparu cymorth mwy effeithiol i'r dysgwyr hyn i'w helpu i wneud yn well yn yr ysgol, ac i symud ymlaen yn llwyddiannus i gam nesaf eu haddysg neu gyflogaeth.

Cyflwynwyd cyfres o gamau gweithredu gyda'r cynllun, i'w gweithredu dros gyfnod o dair blynedd (2016–2019) gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid strategol yn y maes hwn – consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol fel y rhiant corfforaethol ac ysgolion. Mae'r trydydd sector, y byd academaidd a gofalwyr maeth a'u teuluoedd yn cefnogi'r gwaith hwn.

Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu'n cael ei adolygu'n flynyddol ac mae'r llyfryn hwn yn sôn am:

- y cynllun addysg
- yr hyn a gyflawnwyd rhwng Ionawr 2016 a Chwefror 2017
- ffocws gwaith y dyfodol.

¹ gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?lang=cy

Pam mae'r adroddiad hwn yn bwysig?

Er bod rhai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn llwyddo ym myd addysg nid yw llawer yn cael digon o gymorth i'w helpu i gyflawni eu gwir botensial. Gwyddom o waith ymchwil nad yw diffyg uchelgais yn nodwedd o blant sy'n derbyn gofal. Mae eu gobeithion a'u dyheadau yn debyg i rai eu cyd-ddisgyblion nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, ar gyfartaledd nid ydynt yn cyflawni cystal yn addysgol. Yn aml, maent wedi wynebu profiadau trawmatig yn eu bywydau fel camdriniaeth, trawma, esgeulustod neu golled sy'n gallu eu gwanychu a chael effaith hirdymor ar eu bywydau.


Gwyddom fod gan oedolion arwyddocaol sy'n ymwneud â bywyd y plentyn sy'n derbyn gofal rôl eithriadol o bwysig o ran helpu i wireddu dyheadau'r plentyn.

Mae'n hanfodol bod dyheadau ac uchelgeisiau oedolion arwyddocaol – yn enwedig y rhai sy'n gweithredu fel y rhiant corfforaethol – o leiaf yn adlewyrchu dyheadau ac uchelgeisiau'r plentyn sy'n derbyn gofal. Mae trefniadau cadarn a phriodol yn hanfodol i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth priodol, ar yr adeg briodol i'w helpu i gyflawni eu potensial.

Wrth gymharu dysgwyr sy'n derbyn gofal gyda'u cyd-ddisgyblion nad ydynt yn derbyn gofal mae yna fwlch sylweddol mewn perfformiad sy'n tyfu wrth i blant fynd trwy'r ysgol. Yn 2016, llwyddodd 23 y cant o blant sy'n derbyn gofal i gyrraedd trothwy Lefel 2² yn cynnwys TGAU gradd A*–C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. Roedd hwn yn gyflawniad rhagorol ac yn welliant o chwe phwynt canran ar ffigur cyrhaeddiad 2015. Dyma'r union fath o gynnydd y mae angen ei gynnal. Fodd bynnag, yn 2016 mae yna fwlch annerbyniol o hyd o 37 pwynt canran rhwng y rhai sy'n derbyn gofal a'u cyd-ddisgyblion. Ni allwn dderbyn y gwahaniaeth hwn yng nghanlyniadau dysgwyr ac mae angen i ni roi llawer mwy o ymdrech i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn fwy effeithiol.

² Mae trothwy Lefel 2 yn gyfwerth â phum TGAU gradd A*–C

Ffigur 1: Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddysgwyr ar 31 Mawrth 2016 (a)



(a) Cymerwyd y siart o gyfrifiad plant mewn angen.

(b) Trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*–C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.

Canlyniad yr anghydraddoldeb hwn yw bod llai o bobl ifanc o gefndir gofal yn mynd ymlaen i goleg, prifysgol neu swyddi sy'n talu'n dda. Mae yna fwy o risg y bydd y bobl ifanc hyn yn ymddieithrio o gymdeithas ac yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol hefyd.

Rydym am fynd i'r afael â hyn a chynorthwyo pob ysgol i helpu pob dysgwr i wneud yn well beth bynnag fo'i gefndir.

Mae rhai ysgolion yn gwneud gwaith gwych eisoes wrth nodi eu plant sy'n derbyn gofal – a gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol – i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o gefnogi eu hanghenion. Mae angen i ni gydnabod nad yw byw mewn gofal yn golygu na ddylai ddysgwyr wneud cystal â'u cyfoedion, er y gwyddom y bydd eu profiadau blaenorol yn cael effaith fawr ar eu gallu i feithrin perthynas ac yn darparu rhwystrau i ddysgu. Mae angen cymorth gan eu partneriaid ar ysgolion eraill fel eu bod yn gallu dysgu sut mae gwneud pethau'n well ac mae adroddiad Estyn³ a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 yn rhoi cyngor ar feysydd arfer da o ran cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Mae yna bethau pwysig y dylai Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol eu gwneud i helpu ysgolion i wneud gwahaniaeth.



Yng Nghymru, rydym am i bob plentyn, beth bynnag fo'i gefndir neu'i amgylchiadau personol, gyflawni ei botensial.

³ www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/LAC%20Remit%20report%20cy_0.pdf

Y daith hyd yn hyn

Datblygwyd y cynllun addysg ar y cyd hwn rhwng yr Adrannau Addysg ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cydnabod bod polisi cydygysylltiedig ar lefel genedlaethol yn hanfodol i gefnogi darpariaeth effeithiol o wasanaethau addysg yn gweithio mewn partneriaeth â gofal cymdeithasol a phartneriaid allanol eraill sy'n ymwneud â bywydau pob dydd plant sy'n derbyn gofal.

Wrth ddatblygu'r cynllun addysg buom yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn cynnwys gwasanaethau statudol, y trydydd sector, y byd academaidd (CASCADE – Prifysgol Caerdydd) ac yn uniongyrchol â phobl ifanc sydd wedi profi gofal a gofalwyr maeth i lunio cyfres o gamau gweithredu i'w cymryd dros dair blynedd.

Cyflwynir y camau gweithredu i gryfhau trefniadau i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal o dan chwe thema allweddol yn y cynllun.

- Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau.
- Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio.
- Dysgu ac addysgu effeithiol.
- Gwella'r defnydd o ddata.
- Cryfhau trefniadau ariannu.
- Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu at y gwaith o lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol.

Amlinellir y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu yn y llyfryn hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'i rhanddeiliaid i gyflawni'r ymrwymadau a nodwyd fel rhai oedd angen sylw ym mlwyddyn gyntaf y cynllun addysg. Rydym wedi sefydlu Grŵp Strategol Cenedlaethol o weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sy'n gyfrifol am addysg plant sy'n derbyn gofal a chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Estyn, sefydliadau addysg bellach a Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn allweddol i'n helpu ni i gynnal ein cyfeiriad strategol, rhannu arferion da a bwrw ymlaen â'n rhaglen waith gyfunol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'w holl bartneriaid allweddol – awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, Y Rhwydwaith Maethu, Voices from Care, Adoption UK (Cymru) a CASCADE – Prifysgol Caerdydd – am eu cymorth adeiladol yn helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau plant sydd wedi cael profiad o'r system ofal.

Mae'r cynllun addysg yn ei ail flwyddyn bellach. Rydym yn parhau i weithio'n ddiwyd gyda'n partneriaid i gyflawni'r ymrwymïadau sy'n weddill a chodi canlyniadau addysgol.

Thema 1: Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae yna weithwyr proffesiynol amrywiol i'w cael mewn nifer o ddisgyblaethau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn cwmpasu pob sector, gyda swyddogaeth arweiniol i'r awdurdod lleol fel y rhiant corfforaethol, ac yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Er mwyn sicrhau bod y canlyniadau priodol yn cael eu cyflawni mae angen i bawb wneud eu gwaith yn effeithiol gan ystyried buddiannau gorau'r plentyn trwy'r amser.

Mae Llywodraeth Cymru am:

- weithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau fframwaith clir ar gyfer cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau i gefnogi darpariaeth yn effeithiol.

Mae angen i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- adolygu a chryfhau swyddogaethau gweithwyr allweddol a sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn bodoli ym mhob rhan o'r system.

Mae angen i ysgolion a lleoliadau addysgol:

- barhau i ganolbwyntio'n briodol ar blant sy'n derbyn gofal o ddydd i ddydd. Mae dealltwriaeth ysgolion o anghenion eu dysgwyr yn hanfodol i lwyddiant. Mae angen clustnodi gweithwyr allweddol sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd priodol i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc.


Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu

- Rydym wedi helpu pob consortiwm rhanbarthol i benodi cydgysylltydd arweiniol a fydd yn cadw ffocws strategol ar blant sy'n derbyn gofal mewn addysg a sicrhau bod rhaglen waith strategol gytunedig yn cael ei darparu i gefnogi dysgwyr sy'n derbyn gofal.
- Rydym am weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddatblygu *Canllaw ar gyfer y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion*. Bydd y canllaw hwn, a gyhoeddir yn haf 2017, yn nodi'r safonau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl ar gyfer swydd y person dynodedig i sicrhau bod ymarfer yn gyson mewn ysgolion ledled Cymru. Bydd yn egluro cyfrifoldebau'r person dynodedig, ysgolion, awdurdodau lleol a'r corff llywodraethu gyda'r nod o helpu i gryfhau trefniadau swyddogaethol ac adrodd rhwng y swyddogaethau allweddol hyn.
- Rydym wedi cryfhau'r atebolrwydd corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy gyhoeddi cod ymarfer diwygiedig ar swyddogaeth statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 8 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol*⁴.

⁴ gov.wales/docs/dhss/publications/160322part8cy.pdf

- Rydym yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu i ddarparu prosiect peilot dwy flynedd, Fostering Well-being, i helpu i nodi'r effaith y gallai dull addysgeg gymdeithasol ei chael ar blant a phobl ifanc mewn lleoliad gofal maeth yng Nghymru. Mae disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2019.

- Rydym wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu i lunio *Canllaw Gofalwyr Maeth i Addysg yng Nghymru*⁵ sy'n egluro sut y gall gofalwyr maeth helpu i weithio'n fwy effeithiol gydag ysgolion a gwasanaethau addysg drwy symleiddio rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir mewn addysg. Cyhoeddwyd y canllaw ym mis Rhagfyr 2016.



- Rydym wedi cefnogi'r Rhwydwaith Maethu i gyflwyno pecyn hyfforddiant craidd wedi'i deilwra i ofalwyr maeth yn seiliedig ar y canllaw cyhoeddedig ac rydym wedi cynhyrchu cylchgrawn newydd i ofalwyr, *Making it happen*⁶. Cynhaliwyd pedwar 'dosbarth meistr' i ofalwyr maeth ledled Cymru ddechrau 2017 gyda chefnogaeth y consortia rhanbarthol.



Beth mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn ei wneud i helpu

- Mae cydgysylltwyr rhanbarthol yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion – yr Grant Amddifadedd Disgyblion yn gynt – yn darparu rhaglen waith strategol y cytunwyd arni yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a rhanbarthol.
- Mae cydgysylltwyr rhanbarthol – sy'n gweithio gyda chydgyssylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu hardal – yn datblygu prosiectau i'w darparu drwy'r Grŵp Strategol Cenedlaethol.
- Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion a phartneriaid eraill wedi bod yn cydweithio i ddatblygu ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi canlyniadau addysgol gwell.
- Mae'r consortia rhanbarthol yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion mewn tair ffordd yn fras.
 - Darparu hyfforddiant â ffocws fel pecynnau hyfforddiant emosiynol, ymddygiad ac ymlyniad i holl staff yr ysgol yn ogystal â hyfforddwyr maeth, gofalwyr/rhieni sy'n mabwysiadu a llywodraethwyr ysgolion.
 - Cefnogi cydweithio rhwng ysgolion i feithrin gallu a rhannu arferion da.

⁵ www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/tfeducationguidewelsh.pdf

⁶ www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/tfmakingithappenmagazine.pdf

- Gweithredu cynllun bwrsariaeth i ddiwallu anghenion penodol grwpiau neu unigolion fel bo angen.
- Gan weithio gyda'i bartneriaid awdurdod lleol, mae Ein Rhanbarth ar Waith wedi dyrannu cyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 'prosiect rhanbarthol ymwybyddiaeth o ymlyniad' (sy'n cynnwys penodi cydgysylltydd hyfforddiant sydd wedi creu man cychwyn cyson ac ystyrion ar gyfer pob awdurdod). Gall y dull hwn gynnig manteision i **bob** plentyn mewn ysgolion, ond mae'n fwy buddiol i blant sy'n derbyn gofal neu blant sy'n cael eu mabwysiadu sydd angen cymorth ychwanegol yn sgil eu profiadau o golled, trawma, esgeulustod neu gamdriniaeth yn ystod eu plentynod cynnar.

Beth mae ysgolion a lleoliadau addysgol yn ei wneud i helpu

- Mae sefydliadau addysg bellach wedi bod yn gweithio i adeiladu ar yr arferion da a gafwyd gan Buttle UK. Cyhoeddwyd deunyddiau ymarfer da, yn seiliedig ar egwyddorion Marc Ansawdd Buttle⁷ ym mis Tachwedd 2015. Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi gweithio i ymgorffori'r egwyddorion, yn cynnwys troi'r deunyddiau cyfredol yn 'becyn cymorth' rhyngweithiol i sefydliadau addysg bellach a chasglu barn rhanddeiliaid am wella dealltwriaeth gofalwyr maeth o ddysgu ôl-16 oed.
- Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi darparu cymorth wedi'i dargedu i saith sefydliad addysg bellach unigol, gan flaenoriaethau'r rhai sydd bellaf ohoni o ran cyflawni'r Marc Ansawdd, i'w helpu i wella eu gallu i ymateb a'u cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal.
- Mae gan bob sefydliad addysg bellach berson arweiniol dynodedig bellach ar gyfer pobl ifanc o gefndir gofal fel rhan o'u darpariaeth cymorth i fyfyrwyr.

Cynlluniau ar gyfer 2017–18

- Byddwn yn ystyried modiwlau hyfforddiant priodol i gynorthwyo ysgolion a staff sefydliadau addysg bellach sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ategu gan y *canllaw ar gyfer y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion*.
- Mae disgwyl i *Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*⁸ gynnwys elfennau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda'r nod cyffredinol o integreiddio cynllunio addysgol ar gyfer y grŵp hwn o blant. Bydd swyddogion addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i gydweithio i gyflawni hyn.
- Byddwn yn parhau i weithio ar brosiect peilot Fostering Well-being ac yn gwerthuso'r dystiolaeth a gasglwyd ym mlwyddyn gyntaf y prosiect.
- Bydd awdurdodau lleol yn adolygu swyddogaethau gweithwyr allweddol sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal – yn enwedig Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.

⁷ www.buttleuk.org/areas-of-focus/quality-mark-for-care-leavers

⁸ www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10862/pri-ld10862-w.pdf

Thema 2: Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio

Mae angen i ni weithio'n well a mwy effeithiol gyda'n gilydd i gefnogi plant sy'n derbyn gofal ym myd addysg a meithrin trefniadau partneriaeth a chydweithio. Mae angen i swyddogaeth bwysig ac arwyddocaol gofalwyr maeth, gweithwyr gofal preswyl plant, gofalwyr sy'n berthnasau a rhieni gael ei hadlewyrchu wrth gefnogi ac ysgogi plant i werthfawrogi a mynychu'r ysgol neu leoliadau addysgol/hyfforddiant.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu

- Rydym wedi sefydlu'r Grŵp Strategol Cenedlaethol sy'n cynnwys ein holl bartneriaid addysg allweddol ac rydym wedi darparu rhaglen waith ar wahân.
- Rydym wedi gweithio'n agos â CASCADE – Prifysgol Caerdydd i ddatblygu a chynnal cymuned ymarfer ar-lein (COP)⁹ i ymarferwyr sy'n gyfrifol am addysg a lles plant sy'n derbyn gofal. Mae'r COP yn gweithredu fel cronfa o ganllawiau, astudiaethau achos ac adnoddau.
- Rydym yn sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant – dan gadeiryddiaeth David Melding AC – i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion cymdeithasol styfnig a chymhleth sydd wedi arwain at ganlyniadau gwael yn hanesyddol i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r Grŵp yn datblygu rhaglen waith eang gan gysylltu â phartneriaid mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd, tai a chyfiawnder ieuencid i helpu i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ac i nodi pa gamau ymyrraeth gynnar a chamau ataliol y gellid eu cymryd i helpu i leihau nifer y plant sy'n cael eu cymryd i ofal.
- Gwnaethom gynnal pedwar digwyddiad rhanbarthol a gafodd gefnogaeth dda i helpu i ddatblygu rhwydwaith effeithiol o weithwyr allweddol i sicrhau cysondeb mewn darpariaeth gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol.
- Gwnaethom gomisiynu Estyn i gynhyrchu adroddiad arfer orau *Codi cyrraedd, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal*¹⁰, a oedd yn cynnwys tystiolaeth i helpu i ddangos y cymorth a'r ymyriadau cadarnhaol sy'n gweithio'n dda mewn ysgolion i blant sy'n derbyn gofal i gefnogi cyrraedd ad-dysgol neu gyflawniad ehangach, gan gynnwys rhai astudiaethau achos arfer da.
- Rydym yn datblygu canllawiau gyda'r nod o gryfhau trefniadau rhannu data rhwng darparwyr cyn-16 oed ac ôl-16 oed. Rhagwelir y byddant yn cael eu cyhoeddi yn nhymor yr hydref 2017.

⁹ www.exchangewales.org/careandeducation

¹⁰ www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/LAC%20Remit%20report%20cy_0.pdf

Beth mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn ei wneud i helpu

- Mae Consortiwm Canolbarth y De yn cynnal prosiect gyda'r trydydd sector ar hyn o bryd i fapio deunyddiau presennol i helpu gofalwyr a gofalwyr maeth i ddeall pwysigrwydd ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr addysg ôl-16. Bydd canlyniadau'r prosiect ar gael yn haf 2017.

Cynlluniau ar gyfer 2017–18

- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid y trydydd sector i gryfhau swyddogaeth y trydydd sector a'r sector annibynnol i sicrhau agwedd fwy holistaidd tuag at ddarpariaeth, a darparu eiriolwyr ar gyfer plant nad yw'n hawdd ennyn eu diddordeb mewn addysg yn aml.
- Trwy'r Grŵp Strategol Cenedlaethol byddwn yn llunio cynlluniau ar gyfer awdurdodau lleol sydd â phroffiliau dysgwyr tebyg i gydweithio mwy a rhannu arfer da.
- Trwy'r Grŵp Strategol Cenedlaethol bydd awdurdodau lleol yn dechrau gweithio i fapio, adolygu a chryfhau protocolau lleol drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth.
- Byddwn yn gweithio drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant i weithredu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu. Bydd hyn yn cynnwys meincnodi arfer gorau o ran rianta corfforaethol ar draws cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus eraill a pharatoi canllawiau diwygiedig ar rianta corfforaethol.

Thema 3: Dysgu ac addysgu effeithiol

Mae ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn deall eu bod yn gallu dylanwadu llawer ar wella safon bywyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol. Mae llawer wedi cyflwyno arferion cynaliadwy rhagorol eisoes ac ar y cyfan, yn gwybod mwy nag yr oeddynt ac yn gallu adnabod anghenion plant yn well. Mae angen i ni adeiladu ar yr arfer da hwn.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu

- Rydym wedi datblygu rhestr gyswllt genedlaethol o staff allweddol sy'n gweithio i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mae hon ar gael i ymarferwyr a gofalwyr drwy'r gymuned ymarfer ar-lein¹¹ a gynhelir gan CASCADE – Prifysgol Caerdydd.
- Rydym wedi gweithio gydag Adoption UK (Cymru) i gyhoeddi *Cael pethau'n iawn i bob plentyn – Canllaw i ysgolion ar weithio gyda phlant wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd*¹² i ddarparu gwybodaeth am ymyriadau effeithiol i gefnogi plant sy'n cael eu mabwysiadu yn well ym myd addysg. Bydd cyhoeddiad pellach i rieni sy'n mabwysiadu: *Cael pethau'n iawn i bob plentyn – Canllaw i rieni* ar gael o haf 2017 ymlaen.
- Rydym wedi arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol (Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a Swyddogion Lles Addysg) i weld cyfraddau presenoldeb ysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn wedi cadarnhau bod systemau ar waith i reoli absenoldebau anesboniadwy ac nid oedd unrhyw faterion mawr yr oedd angen rhoi sylw pellach iddynt.
- Rydym wedi adolygu ystadegau ar waharddiadau parhaol i blant sy'n derbyn gofal (gweler 'Presenoldeb ysgol a gwaharddiadau', tudalen 18).
- Rydym wedi arolygu holl sefydliadau addysg uwch Cymru i weld y systemau mentora myfyrwyr sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc sydd wedi treulio amser yn y system ofal. Nododd hyn feysydd o arfer da a rhaglenni arloesol sydd wedi'u rhannu'n eang drwy CLASS Cymru¹³ – grŵp o weithwyr proffesiynol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r gwaith o gefnogi pobl ifanc sy'n derbyn gofal a grwpiau agored i niwed eraill mewn lleoliadau addysg bellach ac uwch.



¹¹ www.exchangewales.org/careandeducation

¹² www.adoptionuk.org/sites/default/files/AUK-Wales-Ed-Welsh-final.pdf

¹³ www.class.cymru/cy/

Beth mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn ei wneud i helpu

- Drwy'r Grŵp Strategol Cenedlaethol mae consortia'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi dechrau prosiect i wella'r gwaith o olrhain i fonitro cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal a sicrhau cynlluniau addysg personol a chynlluniau datblygu unigol ystyrlon. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi nodi'r canlyniadau canlynol.
 - Bydd proses/gweithdrefn monitro ac olrhain ranbarthol i olrhain cynnydd addysgol pob plentyn sy'n derbyn gofal yn ysgolion consortia'r de-ddwyrain ar waith erbyn gwanwyn 2018.
 - Bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn datblygu'r system olrhain dysgwyr ymhellach i olrhain a monitro effaith (cyrhaeddiad presenoldeb a gwaharddiadau) cyllid Grant Datblygu Disgyblion erbyn gwanwyn 2018.
 - Bydd pob plentyn sy'n derbyn gofal yn ardal consortia'r de-ddwyrain yn cael cynllun addysg personol/cynllun datblygu unigol i gefnogi ei gynlluniau addysgol (yn unol â diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)).
 - Bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn datblygu a rhannu enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer cwblhau'r cynlluniau addysg personol/cynlluniau datblygu unigol newydd ar y cyd â diwygiadau ADY Llywodraeth Cymru.

Beth mae ysgolion a'r lleoliadau addysgol yn ei wneud i helpu

- Mae staff ysgol wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o ymlyniad a ddarparwyd gan y consortia rhanbarthol oherwydd bod angen i ysgolion fod yn fwy effro i anghenion plant sy'n derbyn gofal ac i sicrhau eu bod yn derbyn cymorth i ffurfio perthynas briodol ac ymddiriedus ag ymarferwyr addysg. Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae llawer wedi dweud eu bod yn defnyddio'r technegau a ddysgwyd yn yr hyfforddiant i reoli ymddygiad heriol ac i ddeall anghenion plant sy'n dioddef o broblemau trawma ac ymlyniad.
- Anfonodd llawer o ysgolion o ranbarth y canolbarth a'r de-orllewin gynrychiolwyr i ddiwyddiad consortia Ein Rhanbarth ar Waith – *Prosiect Ymwybyddiaeth o Ymlyniad: Meithrin Perthnasoedd a Gwydnwch* – a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017 i arddangos a dathlu'r gwaith a wneir mewn ysgolion ledled y rhanbarth (a ariennir drwy'r Grant Datblygu Disgyblion) i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc sydd wedi profi gofal.
- I sicrhau bod y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal mewn sefydliadau addysg bellach yn darparu gwybodaeth amserol i ddarparu fyfyrwyr, comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith i hyfforddi grŵp bach o rai sy'n gadael gofal i gynnal archwiliad dienw o ba mor effeithiol mae darparwyr dysgu unigol yn ymateb i ymholiadau'r rhai sy'n gadael gofal. Mae disgwyl i'r gwaith ddod i ben ac i adroddiad gael ei gyflwyno ddiwedd Gorffennaf 2017.

Cynlluniau yn 2017–18

- Drwy'r Grŵp Strategol Cenedlaethol bydd GWE – Consortiwm Gogledd Cymru yn archwilio'r arferion rhannu gwybodaeth cyfredol rhwng ysgolion ac ymarferwyr allweddol eraill sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal. Thema allweddol y gwaith hwn fydd gwella trefniadau pontio.
- Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr mewn sefydliadau addysg bellach i lunio adroddiad arfer gorau mewn perthynas â ffurfioli trefniadau rhwng ysgolion a sefydliadau ôl-16 i hwyluso pontio didrafferth o addysg orfodol i blant sy'n derbyn gofal.
- Byddwn yn parhau i fonitro gwaharddiadau cyfnod penodol ac yn ystyried a yw'r defnydd o ymyriadau wedi'u hariannu wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ystadegau hyn.

Thema 4: Gwella'r defnydd o ddata

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella ansawdd a dibynadwyedd data a gesglir am grwpiau agored i niwed.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu

- Comisiynwyd y Fischer Family Trust (FFT) i gynnal dadansoddiad sylfaenol o ganlyniadau ôl-16 plant sy'n derbyn gofal ac fe'i cwblhawyd ym mis Ebrill 2016. Rydym wedi cwblhau'r broses o gaffael set ddata flynyddol wedi'i chymharu a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddadansoddi datblygiad/cyrchfannau dysgwyr yn y dyfodol (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal/sydd wedi derbyn gofal). Bydd y set ddata gyntaf wedi'i chymharu ar gael yng ngwanwyn 2017. Rydym wrthi'n datblygu manyleb ar gyfer dadansoddiad ystadegol wedi'i ddiweddarau ar ganlyniadau ôl-16 i blant sy'n derbyn gofal, ar sail erthygl ystadegol yn haf 2017.

Beth mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn ei wneud i helpu

- Drwy'r Grŵp Strategol Cenedlaethol mae Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn datblygu canllaw arfer da ar gasglu a chyflwyno data addysgol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.
- Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i:
 - ddatblygu dealltwriaeth gyson o ba ddata y byddai'n ddefnyddiol ei gasglu ar lefel awdurdod lleol
 - cytuno sut i gyflwyno'r data ac i bwy mewn llywodraeth leol ac yn y consortia rhanbarthol
 - llunio canllaw arfer da y cytunwyd arno i ymarferwyr fel Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn haf 2017.

Thema 5: Cryfhau trefniadau ariannu

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'r consortia rhanbarthol i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd a'i fod yn cael effaith wirioneddol ar wella perfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu

- Rydym wedi comisiynu Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal adolygiad o'r defnydd o elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Datblygu Disgyblion ym mlwyddyn ariannol 2015/16. Bydd y prif ganfyddiadau ar gael yn haf 2017.
- Rydym yn parhau i gefnogi'r consortia rhanbarthol, i annog gwaith ar draws consortia, sicrhau bod cynlluniau gwario'n gadarn a bod y Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol o ran cefnogi anghenion plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.
- Rydym wedi sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer gweinyddu'r Grant Datblygu Disgyblion yn gadarn, a bod Llywodraeth Cymru wedi craffu ar gynlluniau gwariant 2016/17 a'u cymeradwyo. Rydym yn cyfarfod â'r consortia rhanbarthol yn rheolaidd i wirio cynnydd ac i ddarparu cymorth i oresgyn unrhyw broblemau neu rwystrau. Er mwyn helpu'r consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion, rydym wedi paratoi canllawiau sy'n egluro sut i weinyddu'r Grant Datblygu Disgyblion a sut mae'n rhaid i'r meini prawf cymhwysedd weithredu. Rhannwyd y canllawiau'n eang drwy amrywiaeth o sianeli¹⁴.

¹⁴ learning.gov.wales/resources/browse-all/looked-after-children-frequently-asked-questions/?skip=1&lang=cy

Thema 6: Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu

Mae disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod cyfleoedd amrywiol ar gael i gefnogi cyfranogiad effeithiol. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar ddulliau strategol ac arferion gweithredol.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu

- Rydym wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu a Voices from Care i gasglu barn gofalwyr a'r plant yn eu gofal ar y cynnydd a wnaed gennym i gyflawni'r ymrwymïadau yn y cynllun addysg. Mae canlyniadau gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid y Rhwydwaith Maethu ar gael yn *What is needed to enable looked after children to achieve in education?*¹⁵ ac mae canlyniadau gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid Voices from Care ar gael yn *Education! What it means to me: 1 year on*¹⁶.
- Mae Rhwydwaith Plant mewn Gofal Fforwm Gofal Cymru wedi cyhoeddi ei ddogfen *Siarter I Blant a Phobl Ifanc Sy'n Derbynn Gofal ac Sy'n Gadael Gofal*¹⁷.

¹⁵ www.thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/looking-after-fostered-child/education

¹⁶ voicesfromcarecymru.org.uk/

¹⁷ www.careforumwales.co.uk/resources?c=10

Presenoldeb yn yr ysgol a gwaharddiadau

Presenoldeb yn yr ysgol

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod plant a phobl ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser. Gall amser i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth olygu eu bod yn colli cyflwyniad i weithgaredd ac felly ni fyddant yn gwybod beth i'w wneud. Gall presenoldeb gwael arwain at blant a phobl ifanc yn methu â manteisio ar gyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd.

Y newyddion da yw bod cyfraddau presenoldeb yr holl ddysgwyr yn codi ac mae'n galonogol bod presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn uchel.

Gwahardd o'r ysgol

Dylai ysgolion fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a chydweithio â gofalwyr maeth a'r awdurdod lleol fel y rhiant corfforaethol i wneud popeth posibl i osgoi gwahardd plentyn sy'n derbyn gofal. Pan fo ysgol yn ystyried gwahardd plentyn sy'n derbyn gofal yn barhaol dylai gychwyn trafodaeth gyda'r awdurdod lleol cyfrifol. Dylai nodi'r pryderon am leoliad y dysgwr yn yr ysgol a'r angen posibl am gymorth ychwanegol neu leoliad gwahanol.

Mae nifer y gwaharddiadau'n gostwng a nifer y gwaharddiadau parhaol o blant sy'n derbyn gofal yn debyg i ffigur holl blant Cymru (gweler Ffigur 2). Fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi derbyn gwaharddiadau cyfnod penodol yn sylweddol uwch na ffigur holl ddysgwyr Cymru.

Mae angen i ni ddeall y rhesymau am y ffigurau hyn cyn gallu gwneud penderfyniadau pellach am bolisi i geisio lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r tablau canlynol yn dangos sut mae presenoldeb a gwaharddiadau wedi newid dros amser.

Ffigur 2: Canran presenoldeb ysgol plant sy'n derbyn gofal o gymharu â holl ddysgwyr Cymru

	2011–12	2012–13	2013–14	2014–15	2015–16
Ysgol gynradd (a)					
Plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth	95.3%	95.3%	96.3%	96.6%	96.6%
Holl blant Cymru (c)	93.9%	93.7%	94.8%	95.0%	94.9%

	2011–12	2012–13	2013–14	2014–15	2015–16
Ysgol uwchradd (b)					
Plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth	92.7%	93.0%	93.6%	94.4%	94.5%
Holl blant Cymru (c)	92.1%	92.6%	93.6%	93.9%	94.2%

(a) Yn cynnwys ysgolion cynradd a chanol. Dysgwyr 5–10 oed. Nid yw'n cynnwys ysgolion arbennig.

(b) Yn cynnwys ysgolion uwchradd a chanol. Dysgwyr 11–15 oed. Nid yw'n cynnwys ysgolion arbennig.

(c) Cymerwyd y ffigurau ar gyfer holl blant Cymru o giwbiau statscymru:

Absenoldeb ymhlith disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd yn ôl y math o ysgol a blwyddyn¹⁸

Absenoldeb ymhlith disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd yn ôl y math o ysgol a blwyddyn¹⁹

Ffigur 3: Cyfradd gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol fesul 1,000 o ddysgwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a holl ddysgwyr Cymru (a) (b) (c)

	2011–12	2012–13	2013–14	2014–15
Gwaharddiadau parhaol				
Plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth	1.7	1.4	0.3	0.3
Holl blant Cymru (d)	0.2	0.2	0.2	0.2
Gwaharddiadau tymor penodol				
Plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth	196.5	254.7	181.0	157.1
Holl blant Cymru (d)	32.1	29.9	28.3	29.7

(a) Yn cynnwys ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig.

(b) Cyfradd fesul 1,000 o ddysgwyr. Dysgwyr llawn amser a rhan-amser o bob oed.

(c) Enwadur yw cyfanswm y plant wedi'i rannu yn ôl y dadansoddiadau. Cyfradd fesul 1,000 o ddysgwyr.

(d) Ffigurau holl blant Cymru wedi'u cymryd o'r datganiad:

Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion²⁰

¹⁸ statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Absenteeism/absenteeismbypupilsofcompulsoryschoolageinprimaryschools-by-schooltype-year

¹⁹ statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Absenteeism/absenteeismbypupilsofcompulsoryschoolageinsecondaryschools-by-schooltype-year

²⁰ gov.wales/statistics-and-research/permanent-fixed-term-exclusions-from-schools/?lang=cy

Astudiaethau achos

Anogir awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i lunio astudiaethau achos arfer da i'w rhannu ag ymarferwyr a gofalmwyr drwy'r gymuned ymarfer ar-lein (COP)²¹.

Mae'r astudiaethau achos canlynol ar gael ar y gymuned ymarfer ar-lein.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: Model gweithio** – yn darparu gwybodaeth am sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ddiwallu anghenion eu plant sy'n derbyn gofal drwy nifer o fentrau.
- **Cyngor Sir Gaerfyrddin** – yn egluro sut mae'r awdurdod wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ymlyniad i ysgolion.
- **Ysgol Gynradd Eglwys Crist y Rhyl, Cyngor Sir Ddinbych** – wedi datblygu mentrau lles a meithrin i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n agored i niwed.
- **Dinas a Sir Abertawe** – yn darparu gwybodaeth am ddau berson ifanc sydd wedi derbyn gofal ac wedi llwyddo ym myd addysg.
- **Ysgol Abersychan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** – wedi penodi gweithiwr ymyrraeth i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Darllenwch fwy am yr ymyriadau llwyddiannus mae'r ysgol wedi'u defnyddio a sut mae canlyniadau academaidd a chymdeithasol dysgwyr sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol ers i'r gweithiwr ymyrraeth ymuno â'r ysgol.

²¹ www.exchange-wales.org/careandeducation

Cysylltiadau defnyddiol

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol i sicrhau gwelliannau yng nghyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. I gael gwybod mwy am waith ein partneriaid ewch i'r gwefannau canlynol.

Estyn: Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
www.estyn.llyw.cymru/language

Y Rhwydwaith Maethu
www.thefosteringnetwork.org.uk

Adoption UK (Wales)
www.adoptionuk.org/nations/cymruwales

Voices From Care
voicesfromcarecymru.org.uk

CASCADE – Prifysgol Caerdydd
sites.cardiff.ac.uk/cascade/cy/

Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
www.erw.cymru/

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES)
www.cscjes.org.uk

Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)
sewales.org.uk/Home.aspx?lang=cy-gb

GWE – Consortiwm Gogledd Cymru
www.gwegogledd.cymru/cy

Atodiad: Dogfennau perthnasol

Strategaeth – Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2016)

gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?skip=1&lang=cy

Strategaeth – Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (fersiwn darllen syml) (Llywodraeth Cymru, 2016)

gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?skip=1&lang=cy

Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal: adroddiad arfer orau (Estyn, 2016)

www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/codi-cyrhaeddiad-cyflawniad-dyheadau-plant-syn-derbyn-gofal-adroddiad-arfer